



Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir (Cytundebau Partneriaeth) (Cymru) 2007

Canllawiau i Awdurdodau Addysg Lleol ac Ysgolion



Canllawiau

Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif: 016/2008
Dyddiad cyhoeddi: 30 Mehefin 2008

Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir (Cytundebau Partneriaeth) (Cymru) 2007

- Cynulleidfa** Awdurdodau addysg lleol; cyrff llywodraethu a phenaethiaid ysgolion a gynhelir yng Nghymru; awdurdodau esgobaethol; undebau'r athrawon ac eraill, a chyrff cenedlaethol a lleol eraill sy'n ymwneud ag addysg yng Nghymru.
- Trosolwg** Mae'r ddogfen hon yn rhoi cyfarwyddyd i awdurdodau addysg lleol a chyrff llywodraethu ynglŷn â gofynion Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir (Cytundebau Partneriaeth) (Cymru) 2007 a gwybodaeth arall mewn perthynas â Chytundebau sy'n anstatudol.
- Camau i'w cymryd** Dylai awdurdodau addysg lleol a chyrff llywodraethu ystyried y canllawiau hyn wrth wneud Cytundebau Partneriaethau â'i gilydd.
- Rhagor o wybodaeth** Yr Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion
Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 6051
Ffacs: 029 2082 6109
E-bost: SMD2@wales.gsi.gov.uk
- Copiau ychwanegol** Gellir cael copïau ychwanegol yn y cyfeiriad uchod.
Gellir cael y ddogfen hon hefyd o wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn:
<http://newydd.cymru.gov.uk>
- Dogfennau cysylltiedig** Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion - Creu Cymunedau
Dysgu Effeithiol gyda'n Gilydd
Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir (Cytundebau Partneriaeth) (Cymru) 2007
Rheoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir (Diwygio) (Cymru) 2003
Deddf Addysg 2002
Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Diwygio) (Cymru) 2000
Cod Ymarfer ar Gysylltiadau AALLau/Ysgolion 1999
Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998
Deddf Addysg 1997
Deddf Addysg 1996



ISBN 978 0 7504 4740 9

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2008

CMK-22-07-300

D1160809

Cynnwys

Crynodeb

Adran 1:

Cefndir Cyfreithiol a Cefndir Polisi 3

Adran 2:

Cymhwysiad a Chynnwys Cytundebau 5

Adran 3:

Hyd ac Adolygu Cytundebau a Datganiadau 10

Adran 4:

Trefniadau Gweinyddol 12

Atodiad A:

Adran 197 o Ddeddf Addysg 2002 13

Crynodeb

Mae'r canllawiau hyn ar gyfer awdurdodau addysg lleol (AALLau) a chyrrff llywodraethu ysgolion. Maent yn nodi cynnwys a gofynion Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir (Cytundebau Partneriaeth) (Cymru) 2007 a ddaeth i rym ar 12 Rhagfyr 2007 a gwybodaeth arall yn gysylltiedig â Chytundebau a Datganiadau Partneriaeth sy'n anstatudol.

Mae'r canllawiau'n canolbwyntio ar:

- Y cefndir cyfreithiol a'r cefndir polisi i'r Rheoliadau;
- Y swyddogaethau y mae'n rhaid eu cynnwys yn y Cytundebau;
- Swyddogaethau eraill y gellir eu cynnwys yn y Cytundebau;
- Hyd y Cytundebau;
- Amseru pryd dylid adolygu'r Cytundebau;
- Yr amgylchiadau a fyddai'n sbarduno adolygu'r Cytundebau.

Adran 1: Cefndir Cyfreithiol a Cefndir Polisi

Adran 197 o Ddeddf Addysg 2002

1. Dechreuwyd Adran 197 o Ddeddf Addysg 2002 ar 1 Medi 2003. Mae'n ddarpariaeth i Gymru'n unig sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n mynnu bod pob AAL yng Nghymru'n gwneud Cytundebau Partneriaeth unigol â chyrrff llywodraethu'r ysgolion y maent yn eu cynnal. Mae Atodiad A y canllawiau'n rhoi testun adran 197.
2. Diffinnir Cytundeb Partneriaeth yn y Ddeddf yn gytundeb ynglŷn â sut y bydd AAL a chorff llywodraethu ysgol yn gweithredu i gyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas â'r ysgol. Os na all AAL ddod i gytundeb â chorff llywodraethu, gall lunio Datganiad yn nodi sut bydd yr AAL a'r corff llywodraethu'n cyflawni eu swyddogaethau.

Cefndir Polisi

3. Mae llawer o ysgolion ac AALLau yng Nghymru eisoes yn gweithio mewn partneriaeth glòs. Mae'r Cod Ymarfer statudol ar Gysylltiadau AALLau/Ysgolion a roddwyd yn ei le gan y Swyddfa Gymreig ym 1999 wedi helpu i feithrin gweithio mewn partneriaeth.
4. Fodd bynnag, nid yw'r bartneriaeth rhwng AALLau ac ysgolion bob amser yn gweithio'n esmwyth. Weithiau mae ansicrwydd ynghylch yr hyn y dylai AALLau ei ddarparu i'w hysgolion a'r hyn y mae disgwyl i ysgolion ei gyflenwi. Gall diffyg dealltwriaeth neu eglurder o ran priod gyfrifoldebau AALLau ac ysgolion arwain at ansicrwydd a gallai leihau a thanseilio'r hyn y mae ysgolion yn ei gyflawni.
5. Diben Cytundebau Partneriaeth yw gwella a chynnal gweithio mewn partneriaeth rhwng AALLau ac ysgolion. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisiau hyrwyddo'r ffordd hon o weithio, sy'n thema gref o agenda 'Creu'r Cysylltiadau' ac Adroddiad Beecham. Cred Llywodraeth Cynulliad Cymru y bydd gweithio mewn partneriaeth yn helpu i godi safonau o fewn Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r canlyniadau i ddysgwyr. Felly, mae

Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi datblygu'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion i gefnogi gwella dysgu a lles plant a phobl ifanc. Nod y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yw datblygu gweithio ar dair lefel rhwng ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru, i gydweithio er lles dysgwyr a Chymru. Mae Cytundebau Partneriaeth yn arf wrth geisio gwella Effeithiolrwydd Ysgolion. Mae'r Cytundebau'n darparu sylfaen ffurfiol, gyfreithiol, a fydd yn dangos rhan AALLau ac ysgolion yn eglur, drwy nodi sut bydd yr AALL a chorff llywodraethu ysgol yn cyflawni eu priod swyddogaethau ar faterion penodedig. Drwy osod mewn un ddogfen y materion hynny y mae'n rhaid i AALL ac ysgol gytuno arnynt, a thrwy'r broses o ddod i gytundeb ei hun, bydd y Cytundeb Partneriaeth yn sail gadarn i gydweithio a hyrwyddo safonau uwch mewn ysgolion.

Ymgynghori

6. Ymgynghorodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y rheoliadau a'r canllawiau arfaethedig o dan adran 197 o Ddeddf Addysg 2002 a oedd yn mynnu bod AALLau yng Nghymru yn gwneud Cytundebau Partneriaeth â'u hysgolion. Gofynnodd yr ymgynghoriad am farn Prif Weithredwyr Cynghorau Bwrdeistref Sirol, Cyfarwyddwyr Addysg, Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol, cyrff llywodraethu a phenaethiaid ysgolion a gynhelir yng Nghymru a chyrrff addysg cenedlaethol a lleol yng Nghymru. Derbyniwyd tri ar hugain o ymatebion a chymerwyd y rhain i ystyriaeth wrth lunio'r rheoliadau a chyhoeddi'r canllawiau hyn.

Adran 2: Cymhwysiad a Chynnwys Cytundebau Partneriaeth

Cwmpas Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir (Cytundebau Partneriaeth) (Cymru) 2007

7. Mae Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir (Cytundebau Partneriaeth) (Cymru) 2007 yn:

- mynnu bod AALLau a chyrrff llywodraethu'n gwneud Cytundeb ar 31 Mawrth 2008 neu cyn hynny (er bod rheoliad 7 yn darparu rhwyd ddiogelwch os nad yw AALLau a chyrrff llywodraethu'n gwneud Cytundebau Partneriaeth erbyn y dyddiad hwn, gweler paragraff 11 am wybodaeth bellach);
- nodi'r trefniadau ar gyfer adolygu'r Cytundebau bob 3 blynedd a chanlyniad yr adolygiad;
- nodi yn Atodlen 1 y materion i'w cynnwys mewn Cytundeb Partneriaeth;
- nodi yn Atodlen 2 yr amgylchiadau a fydd yn sbarduno adolygiad yn gynharach na 3 blynedd;
- gwneud darpariaeth i'r AALL lunio Datganiad mewn perthynas ag ysgol pan na ellir dod i gytundeb ar Gytundeb Partneriaeth â chorff llywodraethu.

8. Gellir dod o hyd i Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir (Cytundebau Partneriaeth) (Cymru) 2007 ar wefan Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus yn:

http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2007/wsi_20073066_we_1

9. Mae'r Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir (Cytundebau Partneriaeth) (Cymru) 2007 yn disodli llawer o'r Cod Ymarfer ar Gysylltiadau AALLau-Ysgolion a bydd angen diwygio'r Cod maes o law.

Gofyniad bod yn Rhaid Gwneud Cytundeb Partneriaeth o fewn Amserlen Benodol

10. Rhaid i AALLau wneud Cytundeb Partneriaeth â chorff llywodraethu pob ysgol y maent yn ei chynnal. Mae hyn yn cynnwys ysgolion meithrin a gynhelir ond nid yw'n cynnwys unedau cyfeirio disgyblion.

11. Mae Rheoliad 6 yn mynnu bod AAL a chyrff llywodraethu yn gwneud y Cytundebau Partneriaeth cyntaf erbyn 31 Mawrth 2008. Fodd bynnag mae Rheoliad 7 yn rhoi rhwyd ddiogelwch os nad yw AALLau a chyrff llywodraethu'n gwneud y Cytundeb Partneriaeth Cyntaf erbyn y dyddiad hwn. Mae Rheoliad 7 yn caniatáu i'r AAL gael hyd at 1 Medi 2009 i wneud Cytundebau Partneriaeth â chyrff llywodraethu pob ysgol yn yr awdurdod. Dylai AALLau gymryd yr awenau o ran llunio Cytundebau ac annog cyrff llywodraethol i'w gwneud. Er bod Rheoliad 7 yn rhoi rhagor o amser, disgwyliwn i AALLau wneud ymdrech resymol i'w rhoi yn eu lle heb oedi'n ormodol.

Swyddogaethau Statudol i'w cynnwys mewn Cytundeb Partneriaeth

12. Rhaid i'r swyddogaethau statudol canlynol, a ddisgrifir yn fras isod (gyda chroesgyfeiriad mewn cromfachau i'r rhan berthnasol o atodlen 1), gael eu cynnwys mewn Cytundeb Partneriaeth; mae Atodlen 1 y rheoliadau'n rhoi disgrifiad llawn o gynnwys gorfodol Cytundeb. Wrth lunio Cytundebau, dylai AAL ystyried Rheoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir (Diwygio) (Cymru) 2003, gan gynnwys ei gynllun ariannu i ysgolion o dan y rheoliadau hynny, a Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Cymru) 2000.

13. Rhaid i'r Cytundeb gynnwys i bob ysgol:

- sut bydd yr AALL yn hyrwyddo safonau uchel ac yn cefnogi ysgolion yn arbennig y rhai sy'n peri pryder, sy'n destun mesurau arbennig neu y mae gofyn iddynt wella'n sylweddol (Atodlen 1, paragraffau 1 a, d, dd) a'r ffactorau y bydd yr AALL yn eu hystyried wrth adnabod ysgolion sy'n peri pryder. Dylai'r cytundeb gynnwys pa gefnogaeth fydd yr awdurdodau'n ei rhoi i gyrff llywodraethu lle mae'r awdurdod wedi defnyddio ei bwerau ymyrryd neu wedi gohirio'r hawl i gyllideb ddirprwyedig (paragraff 1 a i), ac mewn achosion lle mae arolygiad ysgol yn peri pryder (paragraff 1 a ii) neu lle mae'r awdurdod yn penodi llywodraethwyr ychwanegol (paragraff 1 e);
- cyfrifoldeb yr AALL i roi cymorth a hyfforddiant i lywodraethwyr (paragraff 1 b);
- yr adroddiadau y mae'r corff llywodraethu'n eu darparu i'r AALL ynghylch cyflawni ei swyddogaethau (paragraff 1 c);
- cyfrifoldeb yr ysgol a'r AALL am faterion iechyd a diogelwch a'u dyletswydd i weithwyr a phersonau eraill mewn perthynas â'r materion hyn (paragraff 1 ch);
- cyfrifoldeb yr ysgol a'r AALL am reoli mangre'r ysgol a'i chynnal a'i hatgyweirio a sut gall y corff llywodraethu ddefnyddio ei bwerau i ddarparu cyfleusterau cymunedol (paragraff 1 f);
- dyletswyddau'r AALL o ran talu treuliau cynnal ysgolion (mae paragraff 6 yn berthnasol i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr, mae paragraff 7 yn berthnasol i gategorïau ysgolion eraill).

14. O ran ysgolion sy'n darparu addysg gynradd rhaid i'r Cytundeb gynnwys:

- arfer gan AALL a chan gorff llywodraethu eu swyddogaethau a fydd yn hyrwyddo safonau uchel ac yn sicrhau trosglwyddo effeithiol ar gyfer disgyblion o gyfnod allweddol 2 i 3 (paragraff 2 a);
- gosod targedau gan AALL mewn perthynas â chynlluniau addysg (paragraff 2 b) a chan gyrff llywodraethu mewn perthynas â pherfformiad ac absenoldeb disgyblion (paragraff 2 c).

15. O ran ysgolion sy'n darparu addysg uwchradd rhaid i'r Cytundeb gynnwys:

- arfer gan AALL a'r corff llywodraethu swyddogaethau a fydd yn hyrwyddo safonau uchel a sicrhau trosglwyddo effeithiol ar gyfer disgyblion o CA2 i 3 ac o CA3 i 4 (paragraff 3 a);
- gosod targedau gan AALL mewn perthynas â chynlluniau addysgol (paragraffau 3 c, 4, 5) a gosod targedau gan gyrff llywodraethu mewn perthynas ag absenoldeb (paragraff 3 b).

16. O 1 Awst 2008 dylid darllen cyfeiriadau at Gynlluniau Addysg Sengl i olygu Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc y mae'n rhaid i awdurdodau lleol a phartneriaid eu mabwysiadu erbyn 31 Gorffennaf 2008.

Swyddogaethau Anstatudol y gellir eu cynnwys mewn Cytundeb Partneriaeth

17. Mae Adran 197 yn caniatáu i'r rheoliadau gynnwys y gofynion statudol ar AALLau neu ysgolion yn unig. Felly nid yw rhai o'r materion yr awgrymwyd y dylid eu cynnwys yn yr ymgynghoriad wedi'u cynnwys oherwydd nad ydynt yn ofynion statudol. Nid oes rheswm pam na allai AALLau a chyrrff llywodraethu benderfynu'n wirfoddol eu cynnwys mewn Cytundebau. Hwyl sydd i benderfynu pa faterion yw'r rhain a sut cânt eu cynnwys yn y Cytundeb. Isod ceir rhestr nad yw'n gynhwysfawr o'r materion y mae'n bosib y bydd AALLau a chyrrff llywodraethu yn dymuno eu cynnwys mewn Cytundebau Partneriaeth:

- targedau ar gyfer gwaharddiadau;
- data/gwybodaeth am sut mae'r AALL yn datblygu ac yn cynnal systemau gwybodaeth effeithiol gydag ysgolion a sut mae ysgolion yn cynnal, yn diweddarau ac yn defnyddio data;
- yr amgylchiadau lle bydd yr ysgol yn gofyn am gyngor yr AALL ynghylch cwynion a materion disgyblaeth;
- sut bydd ysgolion ac AALLau yn rheoli trosglwyddo disgyblion o Gyfnod Allweddol 4 i ddarpariaeth ôl-16;
- sut bydd ysgolion ac AALLau yn rheoli trosglwyddo o'r ysgol feithrin i'r ysgol gynradd;

- polisi ar gyfer darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig (AAA);
- trefniadau cyfathrebu/ymgyngori er mwyn ceisio lleihau'r beichiau gweinyddol ar ysgolion (ac i asesu effaith cynigion ar ysgolion).

Lefel y Manyllder i'w Chynnwys mewn Cytundeb Partneriaeth

18. Dylai'r Cytundeb Partneriaeth gynnwys datganiad egwyddorion y mae'n rhaid i'r AALI a'r ysgol ei ddilyn. Rhaid iddo gynnwys y pynciau sydd yn Atodlen 1 y rheoliadau. Rhaid bod digon o fanylion yn y Cytundeb i nodi o leiaf rôl yr AALI a'r ysgol wrth ymdrin â phob pwnc. Gall hyn gynnwys amserlen i bob parti a dulliau gweithio. Fodd bynnag, dylai AALLau ac ysgolion gadw mewn cof y bydd angen hyblygrwydd a disgresiwn gweithredol, yn enwedig ar gyfer pynciau/materion sy'n gymhleth, er mwyn sicrhau bod y Cytundebau Partneriaeth yn arfau sy'n gweithio. Bydd cytundebau sy'n rhy fanwl yn anhyblyg a byddant yn rhwystro cydweithio effeithiol.

Os na all yr AALI a Chorff Llywodraethu Ddod i Gytundeb

19. O dan adran 197(3) o Ddeddf Addysg 2002, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n disgwyl i AALLau a chyrrff llywodraethu ymgysylltu'n gadarnhaol a sefydlu Cytundebau Partneriaeth. Fodd bynnag, pe na bai hi'n bosibl dod i gytundeb, gall yr AALI lunio Datganiad sy'n nodi sut y bydd yr AALI a'r corff llywodraethu yn cyflawni eu priod swyddogaethau mewn perthynas â'r ysgol ynglŷn â'r materion a ragnodwyd yn y rheoliadau.

20. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn disgwyl lle bydd Datganiad wedi'i roi yn ei le, y dylai'r AALI a'r ysgol geisio troi hwn yn Gytundeb cyn gynted â phosibl.

Cwmpas Datganiad

21. Dylai cynnwys Datganiad fod yr un peth â chynnwys Cytundeb Partneriaeth.

Adran 3: Hyd ac Adolygu Cytundebau a Datganiadau

Hyd ac Adolygu Cytundebau a Datganiadau

22. Tair blynedd yw hyd Cytundebau a Datganiadau.

23. Mae Rheoliad 8 yn dweud bod yn rhaid adolygu Cytundeb Partneriaeth neu Ddatganiad cyn pen tair blynedd ar ôl eu sefydlu, ac wedi hynny bob tair blynedd ar y mwyaf. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n argymhell y dylid dechrau adolygu Cytundebau a Datganiadau 6 mis cyn y dyddiad pan ddônt i ben.

Amgylchiadau Penodol a all Sbarduno Adolygiad o Gytundebau a Datganiadau

24. Gall adolygiad o Gytundebau a Datganiadau gael ei sbarduno'n awtomatig gan amgylchiadau a ragnodir yn Atodlen 2 y rheoliadau. Byddai'r adolygiadau cynharach hyn yn cael eu sbarduno petai:

- ysgol yn mynd yn destun mesurau arbennig neu petai arolygiad yn nodi bod angen gwelliannau sylweddol;
- yr AALI yn defnyddio ei bŵer i benodi llywodraethwyr ychwanegol;
- Gweinidogion Cymru'n cyfarwyddo y dylid cau ysgol;
- Gweinidogion Cymru'n cadarnhau cynigion i ailstrwythuro darpariaeth addysg chweched dosbarth;
- Cynigion statudol yn cael eu gwneud ac yn dod i rym sy'n arwain at:
 - gyfuno ysgolion babanod a chynradd;
 - newid i'r ddarpariaeth AAA;
 - cyflwyno trefniadau i ddethol disgyblion a ganiateir (bandio disgyblion);
 - newid o ysgol un rhyw i ysgol gydaddysgol neu i'r gwrthwyneb;
 - newid cyfrwng iaith yr ysgol;
 - cyflwyno darpariaeth breswyl neu ddod â hi i ben;
 - lle mae Awdurdod yn gwneud, neu Weinidog yn cymeradwyo cynigion aildrefnu ysgolion a allai olygu sefydlu ysgolion, eu newid, neu eu terfynu.
- Os yw'r AALI yn defnyddio ei bŵer i atal hawl y corff llywodraethu i gael cyllideb ddirprwyedig.

25. Yn ogystal â'r amgylchiadau yn Atodlen 2 y rheoliadau gall yr AALI a/neu'r ysgol gytuno bod materion eraill yn cyfiawnhau

adolygu'r Cytundebau a'r Datganiadau megis cwynion cyson a gadarnhawyd gan randdeiliaid yn erbyn ysgol.

26. Ar ôl i amgylchiad yn Atodlen 2 ddigwydd sy'n teilyngu adolygiad, mae rheoliad 10 yn rhoi 6 mis i'r ysgol a'r AALl gynnal adolygiad, ac os oes angen ddiwygio eu Cytundeb Partneriaeth neu Ddatganiad.

27. Gallai adolygiad arwain at:

- ddim newid;
- newid y Cytundeb neu'r Datganiad;
- disodli â Chytundeb neu Ddatganiad newydd; neu
- yr AALl yn llunio Datganiad os na chytunodd yr ysgol i newidiadau i Gytundeb.

28. Wrth adolygu Cytundebu neu Ddatganiad oherwydd bod amgylchiad yn Atodlen 2 wedi digwydd, os yw amgylchiad arall yn dod i'r amlwg, dywed rheoliad 11 nad oes rhaid gwneud adolygiad ar wahân am yr ail amgylchiad. Yn hytrach gellir ei adolygu ar y cyd â'r amgylchiad cyntaf. Mae rheoliad 11 yn nodi bod gan yr AALl a'r ysgol flwyddyn o'r dyddiad pan fo'r ail amgylchiad yn digwydd i wneud yr adolygiad. Os bydd trydydd amgylchiad neu ragor o amgylchiadau'n digwydd o dan Atodlen 2 yn ystod y flwyddyn hon, byddai gan AALLau ac ysgolion y flwyddyn a nodwyd yn rheoliad 11 i wneud yr adolygiad.

29. Ar ôl i'r adolygiad gael ei gwblhau ac i'r newidiadau gael eu gwneud neu beidio â chael eu gwneud i'r Cytundeb neu'r Datganiad, os digwydd amgylchiad arall yn Atodlen 2 (ar ôl i'r cyfnod statudol i adolygu'r cyfryw amgylchiadau ddod i ben, h.y. - ar ôl 6 mis am un amgylchiad, neu flwyddyn os bydd 2 amgylchiad neu ragor wedi digwydd), bydd yr amseriad i adolygu'r amgylchiad newydd yn mynd yn ôl i 6 mis fel y nodwyd yn rheoliad 10.

Amrywio'r Amserlen Adolygu

30. O dan reoliadau 12 a 13, pan adolygir Cytundeb neu Ddatganiad o dan amgylchiadau yn Atodlen 2, ond na newidir dim, gall hyd at 4 blynedd fynd heibio wedi i'r amgylchiad a sbardunodd yr adolygiad ddigwydd cyn y bydd rhaid i'r AALl a'r ysgol adolygu'r Cytundeb neu'r Datganiad eto.

Adran 4: Trefniadau Gweinyddol

31. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cydnabod bod y gofyniad i wneud Cytundebau Partneriaeth yn rhoi baich ariannol newydd ar AALLau. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu £330,000 yn 2007-08 sy'n rhoi grant o £15,000 i AALLau unigol i wneud Cytundebau Partneriaeth â'r holl ysgolion yn eu hawdurdod. Telir y grant o dan adran 14 o Ddeddf Addysg 2002. Anfonwyd llythyr yn dyfarnu'r grant ac amodau a thelerau'r grant i AALLau ledled Cymru ar 7 Chwefror 2008 yn rhoi manylion amodau'r grant a sut i hawlio'r grant.

32. Bydd cyllid o £5,000 y flwyddyn i bob AALL ar gael o 2008-09 ymlaen, wedi'i ddsbarthu drwy'r system Grant Cynnal Refeniw i gynnal parhad y Cytundebau Partneriaeth.

Atodiad A

Adran 197 o Ddeddf Addysg 2002 - Cytundebau Partneriaeth a Datganiadau

Nid yw'r rhan hon o'r ddogfen ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw.

(1) The National Assembly for Wales may by regulations require any local education authority in Wales to enter into a partnership agreement with the governing body of each school maintained by that authority, or each such school of a prescribed class.

(2) For the purposes of this section, a partnership agreement is an agreement about how a local education authority and the governing body of a school are to discharge their respective functions in relation to the school as regards -

(a) such matters as may be prescribed, and

(b) such other matters as the authority and the governing body may agree.

(3) Where a local education authority fail to reach agreement with the governing body of a school for the purposes of subsection (1), the authority may draw up a statement setting out how they and the governing body are to discharge their respective functions in relation to the school as regards the matters prescribed under subsection (2) (a).

(4) Regulations under this section may -

(a) require the parties to a partnership agreement to review the agreement, and

(b) require a local education authority that has drawn up a statement under this section and the governing body to which that statement relates to review the statement, at such intervals, or in such circumstances, as may be prescribed.

(5) Following a review of a partnership agreement, the parties may agree -

(a) not to change the agreement,

(b) to amend the agreement in such a manner that it remains a partnership agreement, or

(c) to replace the agreement with a new partnership agreement, but, where they fail to do so, subsection (3) applies as it applies where a local education authority and governing body fail to reach agreement for the purposes of subsection (1).

(6) Following a review of a statement under subsection (3), the local education authority and governing body in question may agree to replace the statement with a partnership agreement, but, where they fail to do so, the authority may amend the statement or draw up a new one (provided the amended or replacement statement is one that could have been drawn up under subsection (3)).

(7) Regulations under this section may make provision for the time by which a local education authority or governing body must comply with any requirement imposed on them by or under the preceding provisions of this section.

(8) In the discharge of their functions in relation to a school maintained by a local education authority in Wales -

(a) the authority, and

(b) the governing body and head teacher of the school, must have regard to any partnership agreement or statement under this section which for the time being has effect in relation to the school.